# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 25 Ebrill 2024 am 7 o'r gloch**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Rheinallt Puw.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
Nodwyd y Clerc ei fod wedi bod wrthi yn paratoi dogfennau statudol y Cyngor, megis:

- Rheolau Sefydlog
- Rheoliadau Ariannol
- Cod Ymddygiad
- Adroddiad Blynyddol 2023/24
- Adroddiad Bioamrywiaeth
- Cynllun Hyfforddiant

Fydd y dogfennau uchod angen ei mabwysiadwy yn y cyfarfod blynyddol, y Clerc i gylchredeg i'r aelodau cyn gynted a bu'r modd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Maes parcio ger y Sior, Carneddi - Cais i ail beintio'r llinellau -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd ail beintio'r llinellau. Nodwyd y Cyng. Einir Williams ei bod wedi cysylltu

hefo Cyngor Gwynedd aml waith, a'u bod angen gwirio perchnogaeth y maes parcio hwn. Y Clerc wedi danfon y wybodaeth cofrestra tir at y Cyng. Einir Williams – ar y gweill.
**5.2 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â chyfreithiwr ynglŷn â llunio les newydd, a'u bod yn cadarnhau fod angen i'r tirfeddiannwr llunio les gyda amodau, ac nid y tenant. Y Clerc i gysylltu â'r perchennog i drafod ymhellach.
**5.3 Addasiadau i Gorffwysfan –** Nodwyd fod y Clerc wedi dad gloi'r cabinet, a adroddwyd mai dogfennau'r Cyngor o'r 80au sydd ynddo. Y Clerc i drefnu sesiwn i fynd drwy'r dogfennau yng Nghorffwysfan ac i gael gwared ar y cabinet. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd bydd yr aelwyd yn aros fel y mae hi.
**5.4 Lwfans Blynyddol -** Atgoffir yr aelodau sydd heb gwblhau'r ffurflen berthnasol i wneud hyn cyn gynted â phosib.
**5.5 Glanhau'r Gofeb** - Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn manylion elusen o Berkshire sydd yn gwneud y math yma o waith am ddim - y Clerc wedi trefnu i'r elusen dod draw i lanhau yn y 3 wythnos nesaf - ar y gweill.

**6. Penodi Archwilydd Mewnol**
Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i benodi Uned Archwilio Mewnol, Adran Cyllid Cyngor Gwynedd unwaith eto fel Archwilydd ar gyfer cyfrifon 2023-24.

**7. Adroddiad Ariannol**
Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Neville Hughes ar ran y Pwyllgor Cyllid.

**8. Materion Traffig – Ward Rachub**
Trafodwyd y materion isod yn dilyn cais gan y Cyng. Paul Rowlinson:

**Ffordd Llwynbleddyn**
Mae nifer o drigolion Rachub yn awyddus i gael trac beicio i gysylltu'r pentref â Lôn Las Ogwen, gan fod y llwybrau presennol, Ffordd Llwynbleddyn neu Lôn Newydd Coetmor, yn beryglus. Byddai trac yn gwella diogelwch beicwyr ac annog eraill i ddefnyddio beic neu gerdded. Mae'r Cyngghorydd wrthi yn trafod y prosiect hwn yn rheolaidd â swyddogion Cyngor Gwynedd ond mae anawsterau mawr gyda phrosiectau o'r fath.

Gofynnodd Cyngor Bethesda ym Mehefin 2022 am archwiliad diogelwch ar y ffordd hon, gan ofyn yn benodol am ddrych gyferbyn â mynediad y fynwent. Rwy'n faclch bod drych wedi cael ei osod erbyn hyn. Nodwyd mae tîm o Uned Traffig Cyngor Gwynedd wedi mynd allan i weld y ffordd ond nid ydynt yn siŵr sut i fynd ati i wneud y fath asesiad. Edrychwyd ar Crashmap (www.crashmap.co.uk) a gwelwyd na chafodd damwain ei chofnodi ar y ffordd ei hun yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae'r map yn dangos y bu un ddamwain ddifrifol ar groesffordd Bryn Bella yn 2022; cyn hynny bu damwain ddifrifol rhwng y groesffordd a'r gornel gyntaf ym 1999 a damweiniau ag anafiadau llai difrifol ar y ffordd ym 1999, 2000, 2001 (dwywaith), 2002, 2003, 2009, 2013 (dwywaith); ynghyd â damwain angheuol ar y groesffordd yn 2009 a phum damwain arall yno rhwng 2002 a 2012. Mae'r groesffordd wedi cael ei gwella a'r terfyn cyflymder ei leihau o 60 i 40 m.y.a. ers hynny. Adroddwyd y Cyng. Paul Rowlinson ei fod wedi gofyn i swyddog i ymweld er mwyn gweld a oes modd gwella diogelwch y gornel gyntaf.

**Lôn Newydd Coetmor a Ffordd Coetmor**
Mae gwaelod Lôn Newydd yn gul, troellog, serth a pheryglus, heb bafin. Nodwyd fod y Cyngr. Paul Rowlinson a Rheinallt Puw wedi gofyn i swyddogion Cyngor Gwynedd a oes modd gwneud

rhywbeth i'w wneud yn fwy diogel. Credir na fyddai gosod twmpathau yma yn ddoeth gan y byddent yn peri i gerbydau fynd i'r ochrau, gan beryglu'r cerddwyr.

Adroddwyd y Cyng. Paul Rowlinson ei fod wedi derbyn cwyn bod pobl yn goryrru ar hyd Ffordd Coetmor. Nid yw Llywodraeth Cymru yn fodlon ariannu unrhyw gynlluniau tawelu traffig ar hyn o bryd, yn sgil cyflwyno'r terfyn cyflymder 20 m.y.a. ac felly mae'n anodd gwneud unrhyw beth i rwystro pobl rhag anwybyddu'r terfyn cyflymder a goryrru ar hyd Ffordd Coetmor. Yr unig opsiwn posibl yn nhyb swyddogion Cyngor Gwynedd fyddai darparu lle diogel i gerddwyr ar Lôn Newydd Coetmor a gwneud y ffordd yn unffordd. Byddai hynny yn cael effaith ar y strydoedd cyfagos. Nid yw'r swyddogion yn deall yn llawn y patrymau traffig yn yr ardal. Bydd y swyddogion yn darparu'r opsiynau posibl i'r cynghorwyr (sir a chymuned) eu hystyried yn gyntaf a pheidio ag ymgynghori oni bai eu bod yn nodi eu bod yn ffafrio un o'r opsiynau hyn.

**Llinell Felyn gyferbyn â'r Tai yn Ffordd Llwynbleddyn**
Gofynnodd Cyngor Bethesda i Gyngor Gwynedd osod cyfyngiad parcio gyferbyn â'r tai yn Ffordd Llwynbleddyn. Yn dilyn cyfnod ymgynghoriad ac ar ôl cael ei gosod, cwynodd y trigolion nad oes ganddynt le i barcio a chyflwynwyd deiseb yn gofyn i'r cyfyngiad gael ei ddileu. Cefnogodd Cyngor Bethesda y cais mewn egwyddor yn ddibynnol ar y costau cyflwyno Gorchymyn Traffig. Gofynnwyd faint fyddai'r gost a chadarnhawyd y byddai tua £2,500. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nad yw'r Cyngor yn fodlon ysgwyddo'r gost o ofyn o Gyngor Gwynedd weithredu yn unol â dymuniad trigolion Ffordd Llwynbleddyn. Nodwyd fod y trigolion cyfagos wedi cael cyfle i rhoi eu barn am y cynlluniau yn ystod y cyfnod ymgynghori, a ni chodwyd unrhyw pryderon yr adeg hon.

**Sgwâr Rachub**
Mae disgyblion Ysgol Llanllechid (y Cyngor Ysgol) yn credu bod rhai rhieni yn poeni am ddiogelwch croesi Sgwâr Rachub a'u bod felly yn gyndyn i adael i'w plant gerdded neu feicio i'r ysgol. Nid oes ateb amlwg i'r broblem ond bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn ystyried y mater ymhellach.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt hefo cyfreithiwr ar ran y Cyngor, ac wedi cyfarwyddo nhw i gysylltu gyda chyfreithiwr y tir feddiannwr – ar y gweill.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2024'
**10.1** Iwan Emlyn Davies, Cyngor Gwynedd – Rhaglen Canol Trefi: Cynllun Finyls – Y Clerc i ymateb gyda syniadau a delweddau. Y Clerc i gynnwys hyn yn crynodeb Llais Ogwan hefyd.
**10.2** Tîm Polisi, Awdurdod Cenedalthol Parc Eryri - Ymgynghoriad ar Cyfarwyddyd Erthygl 4 – y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor.
**10.3** Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen - Cyfle noddi – Penderfynwyd noddi £100.00.
**10.4** Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen - Cais am rhodd – Penderfynwyd rhoi rhodd o £50.00.
**10.5** Kids Cancer Charity – Cais am rhodd - Penderfynwyd rhoi rhodd o £50.00.
**10.6** Cyngor Tref Nefyn – Ceir Trydan – Penderfynwyd y Cyngor eu bod am disgwyl i weld ymateb Cyngor Gwynedd cyn gwneud penderfyniad.

**11. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

**C23/0207/13/CR**
Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0969/13/LL**
Natwest Bank, 13 Stryd Fawr, Bethesda

Addasu'n fewnol adeilad presennol o ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 3 fflat preswyl i ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 6 fflat preswyl.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0138/13/LL**
1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan

Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C24/0252/13/LL**
Llys Dafydd, Stryd Fawr, Bethesda

Gosod mainc ddur a bwrdd dehongli
Penderfyniad: Cefnogi

**12. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £263.88 |
| Scottish Power | Goleuadau Nadolig | £460.98 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £177.64 |
| Scottish Power | Trydan Gorffwysfan | £293.36 |
| C L Jones | Gwaith paentio Llys Dafydd | £44.46 |
| John Wyn Jones | Cyflog Ebrill | £364.00 |
| CThEM | TWE Ebrill | £91.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at Swyddog Cynnal | £8037.12 |

**13. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Glanhau'r Gofeb
- Rhoddion - Cneifio Cyflym, Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity.
- Cynllun Finyls
- Maes Parcio Gerlan